

**DYDD IAU, 29 CHWEFROR 2024**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 6ED MAWRTH, 2024 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**

**[HTTPS://CARMARTHESHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)**

<b>Swyddog Democrataidd:</b>	<b>Kevin Thomas</b>
<b>Ffôn (Ilinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224027</b>
<b>E-bost:</b>	<b><a href="mailto:kjthomas@sirgar.gov.uk">kjthomas@sirgar.gov.uk</a></b>

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2024-25
6. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2024-2025
7. PENNU TRETH Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2024/25 5 - 22
8. DATGANIAD POLISI TALIADAU 2024/25 23 - 270
9. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 19 CHWEFROR 2024 271 - 276
10. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

## 10.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ROBERT JAMES A DOT JONES

"Yn y bôn, mae gwasanaethau bysiau ysgol ar gyfer sicrhau bod ein disgyblion yn gallu teithio'n ddiogel i'r ysgol ynghyd â helpu i leddfu tagfeydd drwy leihau'r miloedd o deithiau unigol mewn ceir bob dydd.

Ym mis Chwefror, cafodd yr aelodau lleol wybod bod y gwasanaethau bws L23, L24 a L27 yn Llanelli wedi cael eu canslo pan wnaeth y darparwr lleol y penderfyniad anodd i dynnu ei ddarpariaeth yn ôl. Nid yw hwn yn achos ar ei ben ei hun, yn Sir Gaerfyrddin nac yng Nghymru, ond mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu i sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl a'r mynediad i wasanaethau bysiau ysgol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn galw ar y Cabinet i ddatblygu cynllun newydd ar gyfer sicrhau bod gan bob disgybl yn Sir Gaerfyrddin yr hawl a'r gallu i gael mynediad i wasanaethau bysiau ysgol dibynadwy.
- Yn credu y dylid cynnal uwchgynhadledd frys gyda'r darparwr preifat sy'n weddill i asesu hyfywedd pob llwybr ac ystyried a oes cyfleoedd i ddod â llwybrau yn ôl.
- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ar frys ei hadolygiad diweddaraf ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a lobïo dros gefnogi hefyd ddisgyblion sy'n byw o fewn 3 milltir i ysgol gyfun i deithio ar fws i'r ysgol"

**11. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

**12. CWESTIYNAU GAN AELODAU:**

**12.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS - - YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU, TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH**

"A allai'r Cyngor nodi, fel nifer a chanran, faint o ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin, a ddynodwyd yn flaenorol yn ffyrdd 30mya, sydd wedi'u newid i 20mya; a beth yw safbwynt yr Awdurdod hwn ar gefnogi gorfodi'r polisi?"

**13. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO YN DILYN SWYDD WAG CANOL TYMOR**

Yn unol â Rheol 4 (2) o Weithdrefn y Cyngor mae'r enwebiad canlynol wedi'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr :-

Y Cyngorydd Robert Evans - Grŵp Llafur

Nid oes enwebiadau eraill wedi dod i law.

**14. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU A PHANELAU'R CYNGOR A GYNIGIR GAN Y GRŴP LLAFUR**

1. Cyngorydd Michael Thomas i gymryd eu sedd wag ar y Pwyllgor Cynllunio
2. Cyngorydd Peter Cooper i gymryd eu sedd wag ar y Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed
3. Cyngorydd Tina Higgins i gymryd eu sedd wag ar y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad